



# Llais Yr Andes

**Mehefin 2019**







Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn brysur dros ben! Ymwelwyr o Gymru, athrawon newydd, Eisteddfod Trefelin, dathliadau 25 de Mayo, i ond enwi ychydig.

Dewch i ddarllen am hanes y digwyddiadau.

Hoffai Sinead a Gruff diolch i bawb am gyfrannu deunydd ar gyfer y rhifyn yma o Llais yr Andes.



# Eisteddfod Trefelin 2019




Cynhaliwyd yr Eisteddfod ar y 26ain a 27ain yn ysgol 57 Trefelin.



Fe oedd nifer obobl yn cystadlu mewn cystadleuthau amrywiol dros y dau ddiwrnod.




Y plant oedd yn gyntaf ar dydd Gwener. LLawer o blant yn cystadlu drwy, dawnsio, adrodd, canu neu creu gwaith celf. Llongyfarchiadau mawr i bob un ohonynt am gymryd rhan!




Yr oedolion fú n cystadlu ar dydd Sadwrn. Gyda Ana Chaibrando Rees or Gaiman yn ennill y gadair eleni. Trowch drosodd i ddarllen y gerdd fuddigol. Diolch i Ana am gadael i ni gynnwys ei cherdd.

Mynydd

Dechrau'r Hydref...

A ninnau'n ffoi i'r fan hudol,
annisgwyl honno
i newid ein hanes,

ffoi i'r fan
lle mae enaid Gorsedd y Cwmwl
yn troi'n Afon Fawr
ffoi i'r fan
lle mae'r condor yn cuddio rhag y glaw
ffoi i'r fan
lle mae ffenestri'r goedwig
yn agor llygaid
i enfys lliwgar y caeau
ffoi i'r fan
lle mae llonyddwch syn y mynydd
yn suo ei lawenydd.
ffoi i'r fan
lle mae'r ysbrydion yn troi'n awel braf
yn sibrwd neges o gadarnhad
a dangos y llwybr i ddal.
ffoi i'r fan
lle mae'r cariad yn troi'n ffaith
ffoi i'r fan
lle mae'r atsain yn gweiddi
taw fi yw dy seren
a thithau fy haul.



# Newyddion Ysgol Y Cwm

Fe gychwynnodd y tymor newydd gyda llawer o gyffro, gan fod tri dosbarth a neuadd newydd yn barod i'w defnyddio, gan ddyblu maint yr ysgol! Mae'r gwaith yn parhau ar ddwy ystafell ddosbarth arall, a fydd yn agor yn fuan. Mae'r holl waith adeiladu yn dilyn yr holl waith caled gan aelodau Cymdeithas Gymreig Trevelin i werthu darnau o dir er mwyn ariannu'r prosiect. Mae'r ysgol yn ddiolchgar dros ben i'n holl ffrindiau o Gymru sydd wedi cyfrannu dros y blynyddoedd, ac sydd yn dal i gyfrannu hyd heddiw.





Ar ddechrau'r tymor newydd daeth criw o athrawon newydd sbon i weithio gyda ni yn Ysgol y Cwm ac fe hoffwn ymestyn croeso cynnes i Gruff o Bwllheli, sydd wedi cymryd lle Athro Emyr eleni gyda'r Cyngor Prydeinig, ac hefyd i Sinead o Bontypridd, a fydd yn helpi drefnu digwyddiadau yn yr ysgol ac yn y gymuned, tan wyliau'r Gaeaf ym mis Gorffennaf. Croeso hefyd i Manon o Lanelli, a gyrhaeddodd yn ddiweddar i dreulio 3 mis yn gwirfoddoli yn yr ysgol. Mae'r ysgol hefyd wedi croesawu dwy ferch leol, sef Frances a Dana, a fydd yn gweithio fel cynorthwywyr iaith Gymraeg gyda'r ysgol. Mae'r ddwy ohonynt wedi bod yn dysgu Cymraeg gydag Ysgol Gymraeg yr Andes ers iddynt fod yn blant bach, ac maent bellach yn rhugl. Byddent yn gweithio ar y cyd gyda gweddill y tîm dysgu Cymraeg yr ysgol, sef Gruff, Sinead, Nia, Jessica, Judith, Margarita, a Ximena. Croeso cynnes i bawb!



Fel yr allwch ddychmygu, rydym wedi bod yn brysur iawn yma gyda gwahanol weithgareddau a digwyddiadau ers cychwyn y tymor newydd, gyda'r un cymysgedd lliwgar o ddiwylliannau Cymru a'r Ariannin! Nol ym mis Ebrill fe gynhaliwyd Parti Piws ar y cyd gydag ysgolion meithrin ledled Cymru, er mwyn dathlu pen-blwydd Dewin a'i gi ffyddlon Doti yn 10 oed. Cymeriadau'r Mudiad Ysgolion Meithrin ydi Dewin a Doli, ac mae'r ddau ohonynt yn boblogaidd iawn gyda phlant yr adran iau yn Ysgol y Cwm, a chafwyd diwrnod i'w gofio gyda phawb yn gwisgo piws!



Mae plant blwyddyn tri wedi bod yn brysur yn ymarfer eu Cymraeg gydag ymwelwyr o Gymru drwy gydol y tymor newydd, ac wedi bod yn cymryd tyrnau i dywys unrhyw ymwelwyr o gwmpas yr ysgol – felly mae dyfodol tywyswyr twristiaid Trevelin mewn dwylo diogel!

Roedd Eisteddfod Trevelin, a chafodd ei gynnal yn Ysgol y Rifleros unwaith eto eleni, yn llwyddiant enfawr unwaith yn rhagor. Yn ôl y traddodiad, cynhaliwyd diwrnod o gystadlu ar gyfer yr ysgolion ar y prynhawn Gwener, ac yn wir roedd gwledd o ddawnsio, canu ac adrodd, a oedd yn cynnwys criw cydadrodd Dosbarth 3 – Y chimangos - llawer o ddawnsio gwerin Gymreig ac Archentaidd, a hyd yn oed dawnsio llinell Americanaidd dan arweiniad un o rieni'r ysgol. Diolch o galon i bawb a gymerodd rhan



# Blwyddyn 3

Blwyddyn 3






VICENTE DWI.
DWI'N BYW YN NHREVELIN YN AGOS I'R PARC. DWI'N HOFFI CYSGU, BWYTA HUFEN IÂ A ANIFEILIAID. DWI'N HOFFI MYND I'R PARC. MAE'N HWYL.

<u>Sgwrs</u>

Kayla Evans a Gwenni Hughes, Bl 3





Manon: Helo!
Sinead: Helo!
Manon: Pwy wyt ti?
Sinead: Sinead dw i, a pwy wyt ti?
Manon: Manon dwi i. Sut wyt ti?
Sinead: Ardderchog diolch a ti?
Manon: Dw i'n arbennig diolch!
Sinead: Ble wyt in byw?
Manon: Dwi'n byw yn Nhrevelin.
Sinead: Dwi'n byw yn Nhrevelin hefyd.
Manon: Yn agos i ble?
Sinead: Yn agos i'r parc a ti?
Manon: Yn agos i'r siop mwclis.
Sinead: Ti eisiau dod i tŷ fi?
Manon: Ydw diolch!
Sinead: Iawn, dere gyda fi.





Clara dwi.
Dwi'n BIW yn NHREVELIN, yn agos I'R SIOP.
Dwi'n HOFFI ysgrifennu, Darllen a mynd yr ysgol.
Dwi'n HOFFI mynd i'r ysgol Mae'n ARBENNIG.
Dwi'n HOFFI Mynd i'R PARC. Maen gyffrous.






Aimaa dwi i.
Dwin byw yn Nhrevelin yn agos i tŷ Zara a tŷ Luciana, a siop.
Dwin caru dyfeisio, ymarfer corff, a teithio.
Dwin caru mind i sŵ gyda mam a dad. Maen gyffrous.
Dwin hoffi mind i pwll nofio.





Fran dwi.
Dwi'n hoffi coginio
Dwi'n hoffi mind i'r parc
Dwin hoffi mind i'r llyfrgell
mae'n arbenig.






BENJAMIN dwi i
Dwi n byw yn Nhrevelin yn agos i'r ysgol
Dwi n hoffi tŷ Mam a tŷ Dad a tŷ nain
Dwi n hoffi mynd i'r clwb fontana

Blwyddyn 3

# Blwyddyn 3





Jame ann dwi

Dwin Byw yn nhrevelin yn agos i'r PARC.

Dwi'n HOFFi coginio, celf, a mynd AR y ceffyl.

Dwi'n HOFFi mynd i chile mae'n DDiddorol.

Dwi DDiM yn HOFFi myn yn y CAR MAEN DDIFLAS.






LEÓn dwi i.
DWI'N BYW YN NHREVELIN YN AGOS I'R PARC. DWI'N HOFFI CEFFIL, NOFFIO A SHARC. DWI'N HOFFI MYND I'R TŶ BUITA. MAE'N FLASUS.









Emmie Lou dw'i

Dwin Byw yn nhrevelin yn agos i'r hen hand.

Dwin haffi cerdd gyda mam a dad.


Dwin haffi mynd i'r siop maen hwyl.

[illegible] dwi.

dwi'n byw yn NHREVELIN yn agos i'r parc

dwi'n hoffi [illegible]
dwi'n hoffi [illegible]
dwi'n hoffi mynd i'r
[illegible]
dwi'n hoffi mynd i'r [illegible]












# Blwyddyn 3

Helo! Dana dw i. Dw i'n 18 oed. Dw i'n dysgu Cymraeg ers 3 mlynedd. Dw i wedi dechrau gweithio fel gwirfoddolwraig yn Ysgol Y Cwm eleni. Dw i'n helpu yn dosbarth 4 efo athrawon Evangelina a Ximena. Dw i wrth fy modd  efo fy ngwaith yma oherwydd, dw i'n gallu ymarfer Cymraeg efo'r plant, dysgu geiriau newydd iddyn nhw, helpu nhw i siarad pob dydd yn yr iaith a cael amser hwyl,. Hefyd, dw i'n hoffi gweithio efo athrawon achos maen nhw'n llawn cariad, a hwyl.
Dw i wrth fy modd efo Ysgol Y Cwm.



<u>*Adolygiad Llyfr Glas Nebo*</u>

*Dyma nofel ffuglen a chreadigol dros ben gan yr awdures Manon Steffan Ros a enilliodd y Fedal Ryddiaith 2018. Mae'n stori sy'n dal eich sylw chi o'r dechrau i'r diwedd.*

*Mae cychwyn y nofel llawn dirgelwch achos dydy'r lleoliad na'r cyfnod ddim yn glir o gwbl, er bod y cymeriadau yn son am y Terfyn, ni allwch chi wybod beth a ddigwyddod tan rhai penodau ymlaen.*


*Wrth ddarllen drwy y stori rydym yn sylweddoli bod rhywbeth mawr wedi newid bywyd y prif gymeriadau sef Sion, ei fam Rowena a'i chwaer fach Dwynwen.*


*Rydym yn gweld bod Rowena wedi mynd ati i greu byd newydd iddynt, gwahannol iawn i'r byd modern.*

*Mae'r byd llawn anwyldeb a theyrngarwch ac ar yr un pryd trychineb a dioddefaint. Er hynnu mae Rowena wedi darganfod pwy ydy hi'n hanfod a'i holl galluoedd.*

*Byddwn i yn argymell y llyfr yma i rhywun sy'n hoffi ffuglen Gymraeg gan fod y stori yn fachog a'r cymeridau yn gredadwy.*

*Adolygiad gan Cristina Jones*





# Dosbarth Plant Esquel

Emilia dw i.
Dw i'n 10 oed.
Dw i'n byw yn Esquel ar stryd Darwin 450.
Dw i'n byw gyda mam, dad a fy mrawd, Oki.
Mae gen i gi a chath o enw Teo a Pooh.
Dw i'n mynd i coleg Salesiano.
Dw i'n hoffi nofio, dawnsio a chanu.
Fy hoff fwyd ydy reis a sushi.
Fy hoff gyfres ydy Go!.





Vicky dw i.
Dw i'n 10 oed.
Dw i'n byw yn Esquel ar stryd Alberdi 544.
Dw i'n byw gyda mam a cath. Poroto yw ei enw.
Dw i'n mynd i coleg Salesiano.
Dw i'n hoffi canu, telas a beicio.
Dw i'n casau codi yn gynnar yn y bore.
Fy hoff fwyd ydy pitsa.
Fy hoff ffilm ydy Buscando a Dori.

Ori dw i.
Dw i'n 8 oed.
Dw i'n byw gyda mam, dad a 3 chwaer.
Dw i'n mynd i Ysgol 8.
Dw i'n hoffi nofio.
Dw i ddim yn hoffi canu.
Fy hoff fwyd ydy spaghetti.
Fy hoff gyfres ydy 'Soy Luna'.





Rhys dw i
Dw i'n 8 oed.
Dw i'n byw yn Esquel
Dw i'n byw gyda Mam, dad a Rhiannon
Dw i'n hoffi dawnsio.
Dw id dim yn hoffi canu.
Fy hoff fwyd ydy asado.
Fy hoff ffilm ydy

# Dysgu Cymraeg

DW I'N DYSGU CYMRAEG

## EIN PROFIAD GYDA'R CYMRAEG

Dechreuon ni ddysgu Cymraeg yn Esquel tair blynedd yn ôl gyda Nia Jones, Gladys Jones a Grisel Roberts. Roedd grwp mawr o ddysgwyr ar y dechrau yn 2017: Claudia, Silvio, Sandra, Claris, Diana, Osvaldo a ni. Ar y ceremoni diwedd y blwyddyn, caneuon ni gân traddodiadol iawn o'r enw: "Oes gafr eto?". Cawson ni llawer o hwyl yn y dosbarth.

Y llynedd cawson ni ddosbarthiadau gyda Grisel a Emyr Evans. Gwnaethon ni ddosbarth goginio a dysgodd Emyr ni sut i wneud Pica Bach. Ar diwedd y blwyddyn aethon ni allan i gael picada a cwrw bach (llun).

Eleni  mae Grisel a Gruffudd Evans yn dysgu ni. Dyn ni'n mynd i orffen cwrs wlpan a dechrau cwrs pellach. Dim ond tri ohonon ni sy yn y grwp nawr: Osvaldo a ni.

Dyn ni'n mwynhau dysgu Cymraeg a siarad â phobl o Gymru. Ond mae'n anodd iawn i ni dysgu a chofio geirfa, dysgu'r treigladau a deall acenau gwahanol. Dyn ni'n gobeithio siarad Cymraeg yn well a hoffen ni fynd i Gymru i ymarfer ein Cymraeg, ymweld â llefydd a cwrdd â phobl.

Luis Carrizo a Mariela Jones.



# Dysgu Cymraeg

Johanna dw i.
Dw i'n byw yn Trevelin
Dw i'n hoffi dawnsio, cerdded a darllen.
Dydw i ddim yn hoffi smwddio.
Dw i'n mwynhau dysgu Cymraeg.



Claris dw i.
Dw i'n byw yn Esquel.
Dw i'n hoffi nofio, coginio, cerdded, dringo a marchogaeth.
Dw i ddim yn hoffi chwarae pêl-droed.
Dw i'n mwynhau dysgu Cymraeg



Isabel dw i.
Dw i'n byw yn Esquel.
Dw i'n hoffi cerdded.
Dw i ddim yn hoffi smwddio.
Dw i'n mwynhau dysgu Cymraeg.

Sandra dw i.
Dw i'n byw yn Esquel.
Dw i'n hoffi siocled a coginio.
Dw i ddim yn hoffi mynd i gerdded.
Dw i'n mwynhau dysgu Cymraeg.

Daniela dw i. Dw i'n 49 oed.
Ces i fy ngeni yn Nghordoba. Des i fyw i Drevelin pan o'n i'n 7 oed.
Eleni, dw'n byw yn Esquel .
Dwi'n athrawes ymarfer corff ac yn gweithio yn ysgol 422 yn Nhrevelin. Dysgais i yng Nghordoba.
Dwi'n hoffi darllen llyfrau,canu yn y côr a chwarae yr accordion ac violonchelo. Dwi'n hoffi astudio Cymraeg.
Mae dad yn siarad cymraeg a dwi'n gobeithio siarad cymraeg gyda fe.
Dw i ddim yn hoffi coginio a gwbl!
Mae dau o blant gyda fi, Marion ac Mariano. Mae Marion astudio yn y brifysgol yng Nghordoba.Mae Mariano yn astudio yn yr ysgol uwchradd yn Esquel.
Mae 6 anifail anwes gyda fi. Dau gi (ROCKY a CUSUNA) ac phedair cath.(MIMI,TUTCA, TITI A CHENKE)
Priodais i ddwy flynedd yn ôl ac es i fynd i Gomodoro Rivadavia felly.
Yn y dyfodol dwi'n gobeithio cael mynd i astudio a nabod Cymru .



Linda Hazel Jara dwi, dwi'n byw yn Nrhefelin, ces i fy ngeni yma. Dwi'n 15 (un deg pump) oed, Dwi'n cael fy mhenblwydd ar 8 (wyth) Gorffenaf. Fi ydy'r ferch ifancaf yn fy nheulu, Mae dwy chwaer gyda fi, Dana a Sheila ydy nhw, Mae Dana yn gweithio yn Ysgol Y Cwm fel athrawes. Mae un ferch gyda Sheila, Karly ydy hi mae hi yn 2 mis oed, Fy mam i ydy Bruna a fy'n nhad i ydy Gerardo, dwi'n caru fy'n nheulu. Mae dau o anifeiliad anwes gyda fi, Chelsea a Cami.
Dwi yn disgybl yn ysgol 705 (saith dim pump).
Dwi'n hoffi dysgu ieithoedd yn enwedig Cymraeg, Saesneg ac Eidaleg.
Dwi'n hoffi chwarae tenis, pel droed a pel fasged, dwi'n hoffi gwneud chwaraeon, Dwi'n hoffi coginio wethiau. Dwi'n caru theatr, dawnsio a chanu.
Dwi ddim yn hoffi codi yn y bore.
Dwi ddim yn hoffi llysiau chwaith.
Dwi'n hoffi superheroes yn enwedig Spider-man.
Dwi'n hoffi cerddoriaeth y 60s, 70s, 80s a 90s, yn enwedig QUEEN ac Elvis Presley.

# Cofiant i EDWARD JONES, Bagillt.

## Gwaith Brychan Evans drwy garedigrwydd ei wyres Nora Evans

Edward Jones, pan yn siarad age ef ei hun, ond pan yn siarad a chymydog, Bagillt, bob amser. Un o fintau gyntaf Cel. Fontana oedd Bagillt, pan ddarganfyddwyd Cwm Hyfryd yn y flwyddyn 1885 ac, un o sefydlwyr cyntaf Colonia 16 de Octubre. Cafodd Lech, lig, o dir, lig N°23, lawr ar waelod y Cwm. Roedd ei dir yn croesi'r afon Fawr ac, yn agos i'r fan lle'r oedd y tir yn croesi, yr oedd ynys weddol eu maint, a byddau Baguillt yn arfer dweud: bob gwanwyn, y byddau'r crocodeils yn dod yno i ddodwy, y  cwch oedd ganddo, pren wedi naddu y ty mewn allan, a dau bren  arni, un bob ochor wedi ei clymu yr ochor tu allan hefyd. Gwelais ef a'r ci, un tro yn coresi'n hwylus iawn. Yr oedd rhywbeth yn od, naturiol ynddo. Roedd yn byw ar ben ei hun, gwneyd pob peth ei hun. Dyn byr o rhan corff, barfog ei wyneb. Bob amser a het fawr am ei ben. Gwneyd ei ddillad eu hun: ffwstiau oedd y denfydd haws ei gael yr amser hono, a hwnw yn ddenfydd trwchus a chaled, ac anodd ei wnio, a hyny efo llaw, ond, yr oedd Bagillt yn llwyddo i wneud trowsis iddo'i hun o hono, hyny yw, yr oedd yn gwneud yn lle trywsus.

Pan oeddwn i, yn cadw 'bach' yn 'Bod Eglur' hoffwn yn amal fin nos, fynd yno, yr oedd yn ddifur ei gwmni. Byddau yn adrodd hanes pethau yn yr Hen Wlad (tu allan) o herwydd i'r tÿ oedd ganddo syrthio adeg y llu mawr, a'c wrth adrodd yr hanes, ac fel rheol, yn gwneyd map o'r lle, yn y lludw, a hyny hefo'i fus, a bob rhyw hyn a hyn, yn glanhau ei fus yn ei farf fel, erbyn gorffen ei stori, yr oedd ei farf yn wyn o ludw. Ac fel y dywedais i'r tÿ cyntaf syrthio amser y llu mawr, bu am beth amser wedyn, heb dÿ o gwbwl. Gwell i mi ddweyd yn awr pan oedd yn byw yn yr hen dy.

Yn hwyr iawn un noson, clywai yr ast yn cwyno ac yn gwneyd swn rhyfedd tu allan i'r drws, agorodd y drws, a'c yn ngoleu'r lamp gwelau biwma yn signo gwaed yr ast. Cydiais yn y gwn, a saethais o, chafodd o ddim amser i dynu i dafod i mewn, medda fo. Mewn hir amser (yr oedd yn haf) gwnaeth dÿ newydd. Eu ddefnydd oedd canghenau o'r Banadl, yma, meant yn tyfu'n goed uchel, a'c hawdd cael canghenau o honynt. Dyna ddefnydd yr ochrau, ar tô o sinc (tan ar lawr o hyd) o.y. yn gydiol a'r tÿ yr oedd ystafell i'r ceffyl hefyd.  Pan y byddech yn eistedd yn y gegin, drwy y canghenau yr oeddych yn gweled y ceffyl yn yr ystafell arall.

Wedi iddo orffen ei dy newydd, un min nos fel arfer mi ei's am dro i weled sut oedd y ty newydd yn edrych. Yr oedd o wrthu yn gwneyd rhywbeth yn y gegin, wedi siarad tipin o bob peth, dywedais wrtho: mae hi yn iawn arnoch chwi rwan Edward Jones, wedi cael ty newydd a cloc newydd, does dim ar ol nawr, ond gwraig a 'cath' medda fo. Eu gymydog oedd R.G.R. ac, roedd Bagillt yn ofnadwy o ddrwg-dybus o'I gymydog, credau ei fod yn dwyn ei anifeiliaid; (er na chefais le i gredi hyny). Bu farw R:G:R. rhai blynyddau o flaen Edward Jones. Dydd yr angladd nid oedd Bagillt yno ond, yr un dydd, ond yn hwyr, min nos, death Bagillt  i Fron Deg . Yr oedd Rhys Thomas a'r teulu yn byw yn Vron Deg yr adeg hono, ac yn ystod y siarad y noson hono, gofynodd Rhys Thomas iddo: welais i mohono chwi yn yr angladd Edward Jones? Naddo meddau ef. Dyna pam y does I yma heno, I ofyn I chwi os ydych wedi ei gladdu o yn iawn?. Wel ebe Rhys Thomas  cafodd ei gladdu fel pob dyn arall: rhoisoch 'I o au wyneb i lawe'r neu mae o'n siwr o ddod i fyny.

Un Person arall oedd Bagillt, yn elyn mawr iddo, oedd R.F.Jones, credaf mae Methodus oedd R:F:J. o rhan ei grefydd ond, yr enw oedd Bagillt yn rhoddi iddo oedd Cigfran. Yr oedd R.F.J. mewn ffarm yn tassi gwenith ac, yr oedd Bagillt wedi bod fyny'r Cwm, ac yn dychwelyd heibio'r ffarm yma, a chyn iddo gyraedd gartref cyfarfu ag un o'r cymdogion, a gofynodd iddo:  Wel Edward Jones beth yw'r newyddion i fyny'r Cwm? Wel medda fo, mi welais Gigfran yn tassi gwenith a chot methodus amdani. Wedi digio nid oedd maddeuant yn y byd hwn nar byd arall yn bosibl ganddo. Peidied neb feddwl mae dyn anllythrenog oedd Bagillt, yr argraff adawodd arnaf fi, ei fod yn scolhaig gwych.

Clywais ond, nis gallaf sicirhau'r peth, mae 'coach man' i ddyn cyfoethog oedd o, cyn dyfod allan yma. Peth arall adawodd argraff a'r fy meddwl oedd, mae dyn wedi cael si dwyllo o'i siomi oedd o. Er y cwbwl yr oedd yn onest fel yr haul: yr oedd yn berchen Da corniog lawer, a'i hefyd llawer o'r pedwar carnoliog. Ni chredaf iddo gael llawer o bleser o'i euddo, ond posibl ei fod yn mwynhau ei hun fel yr oedd. Ni chefais unwaith erioed fwyd yno ac, ni welais ef ychwaeth yn bwyta. Aeth fy nhad rhoi tro am dano a chafodd Bagillt yn ei wely (gweli fel oedd ganddo ef)  yn wael iawn. Cafodd ddod i Bod Eglur. Bu fyw rhai dyddiau yno (dim Dr. i gael yr adeg hono) Gwnaeth ei ewyllus i'w frawd yn yr Hen Wlad. Edward Jones Bagillt yn arwyddo ei enw ar y diwedd a nhad a Lewis E. Jones yn arwyddo fel dau dyst. Bu farw yn y gadar, a chafodd ei gladdu yn yr un fynwent a'i gymydog R.G.R  a hefyd R.F.J. yr hen gigfran. Mae hyny er's rhai blynyddoedd bellach, ac, hyd yn hyn ni odd arnaf fi, ei fod yn scolhaig gwych.

Mae hyny er's rhai blynyddoedd bellach, ac, hyd yn hyn ni chlywais fod dim annghyd-wel-edod wedi bod o gwbwl.






# Byd Bach gan Noe Sanchez Jenkins

Mae pawb yn gwybod bod sawl stori sy'n son am yr hen ddyddiau ym Mro Hydref. Roedd fy nhaid yn arfer siarad am un benodol, stori am fuwch.

Amser maith yn ôl roedd fy nhaid yn byw efo ei deulu, 6 o frodyr a chwiorydd a'i rieni, Howel Jenkins a Swsan Awstin. Un diwrnod collodd y teulu ei benteulu, bu farw Howel yn gadael ei wraig efo saith o blant bach ar eu pennau eu hunain. Roedd fy nhaid yn cofio pa mor galed oedd yr hen ddyddiau hynny. Roedd o'n arfer dweud "Doedd neb i helpu ni, dim ond 'Roberts', daeth o efo buwch, a oedd hynny helpu mawr i ni". Roedd ei lygaid pob tro yn troi yn wlyb pan oedd o'n siarad am hynny.

Dyna oedd y stori 'o'n i'n glywed am y fuwch, ond penderfynais chwilio am "Roberts", y dyn a helpodd fy nheulu. Ces i syndod anferth pan sylwedolais i mai "Roberts" oedd taid Xime Roberts, merch o'r Wladfa, sy'n byw yn Nhrefelin a person annwyl i mi. Felly, dwedais yr hanes wrthi, doedd hi ddim yn gwybod, ond wedyn dwedodd hi wrtha i bod hanes am y fuwch hefyd yn ei theulu hi, roedd ei mam yn cofio gwrando ar ei thad yn son am teulu Jenkins (fy nheulu).

Naethon ni syrthio mewn cwtsh, nes i ddiolch iddi am y fuwch un waith eto achos dw i'n gwybod pa mor bwysig oedd hynny i fy nhaid.

Dw i'n credu bod y byd cymreig yn fach iawn, mae cysylltiad cryf rhwng ein cyndeidiau, ac ein cenhadaeth ni yw cadw eu hetifeddiaeth yn fyw, ac eu hanrhydeddu.










# Yng Nghymru

Nahiara Bonillo ydw i, dw i'n 18 oed a dw i'n byw yn Nhrevelin. Hoffwn i siarad am fy mhrofiad yn Nghymru!
Y llynedd gyda help athrawon o Ysgol Y Cwm, cymrais i ran i ennill ysgoloriaeth "Tom Gravell 2019" i fynd i Gymru i astudio yn Coleg Llanymddyfri. Yn ran o'r cais roedd yn rhaid i mi ysgrifennu llythr yn Gymraeg ac wedyn cefais gyfweliad ar Skype gyda athrawon o'r coleg.
Ar ôl cyfweliad derbynais i e-bost a dywedodd fi oedd yr enillydd o'r ysgoloriaeth! Ro'n i wedi cyffroi ac yn hapus iawn!.
Teithias i i Gymru ar 5ed Ionawr ac es i nôl i Drevelin ar Fawrth 31.
Roedd bobl o'r coleg yn groesawgar a chyfeillgar iawn. Ro'n i'n byw yn Tŷ Llanofer gyda merched o Gymru a lleoedd arall fel China, Yr Almaen a Llundain.
Es i i ddosbarthiadau Cymraeg a Seasneg, helpais i yn dosbarthiadau Sbaeneg a dosbarthiadau celf.
Roeddwn i hefyd yn helpu bob Dydd Gwener yn yr Ysgol Feithrin "Rhys Pritchard".
Yn fy amser rhydd ro'n i'n chwarae piano neu wneud chwaraeon.
Gallais i ymweld llawer o lleoedd, a gwelais i llawer o gestyll.
Dw i'n hapus iawn oherwydd "Ysgoloriaeth Tom Gravell" roedd profiad gwych i wella fy nghymraeg, wneud ffrindiau newydd, a bod mwy annibydol.

Y syniad y tu ôl i Parallel.Cymru oedd creu cylchgrawn dwyieithog ar-lein, gyda chasgliad o erthyglau, bywgraffiadau, straeon a mwy i'w mwynhau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Drwy gyhoeddi popeth ochr-wrth-ochr yn y ddwy iaith, mae'r wefan yn rhoi cyfle i ddysgwyr ehangu eu geirfa trwy ddarllen yn Gymraeg gyda chymorth y cyfieithiad Saesneg.

Ym mis Chwefror 2018  fe gyhoeddodd y wefan ei erthygl gyntaf drwy gyfrwng y Sbaeneg, ochr-wrth-ochr gyda chyfieithiad Cymraeg, er mwyn helpu dysgwyr Cymraeg Patagonia. Mae erthyglau newydd yn cael eu hychwanegu bob wythnos, ac mae'r wefan bellach yn dal dros 5,000 o eitemau amrywiol, gan gynnwys cylchlythyrau Ysgol y Cwm a gwaith o gystadlaethau cyfieithu eisteddfodau'r Wladfa.

Un sydd yn gyfarwydd â Parallel.Cymru yw Dr. Lynda Pritchard Newcome, awdur y llyfr 'Speak Welsh Outside Class' (Siaradwch Gymraeg Y Tu Allan i'r Dosbarth'), a ymwelodd â'r Wladfa'n ddiweddar. Dywedodd Lynda:

"Rwy'n credu, fel llawer o diwtoriaid ar hyn o bryd, bod hunanhyder yn fwy hanfodol wrth ddysgu iaith na thalent. Wrth ddarllen testunau paralel mae dysgwyr yn gallu datblygu sgiliau heb deimlo dan fygythiad, yn adeiladu hyder i ddefnyddio beth maen nhw wedi dysgu yn y byd go iawn."

Mae Parallel.Cymru wedi ei anelu at ddysgwyr a siaradwyr o bob lefel, ac mae'r erthyglau wedi eu trefnu yn ôl safon yr iaith, o straeon byr hawdd i'w darllen i erthyglau llenyddol . Mae'r wefan yn gwbl rad ac am ddim, ac mae deunydd hefyd ar gael i'w lawr-lwytho ar ffurf PDF neu MP3.

# Cornel Coginio
# Cacennau Cri





110G MENYN
225G BLAWD CODI
85G SIWGR
LLOND LLAW O SYLTANA
1 WY



1) RHWBIWCH Y MENYN A'R BLAWD.
2) ADIWCH Y SIWGR A'R SYLTANAS WEDYN CYMYSGWCH Y WY I MEWN.
3) RHOWLIWCH Y TOES TAN MAE'N DENAU.
4) TORRWCH YN GYLCHOEDD GAN DDEFNYDDIO Y TORRWR.
5) COGINIWCH AR TYMHEREDD ISEL AR BADELL FRIO.



GAN DOSBARTH PLANT TREFELIN

# Ffrindiau newydd o Gymru



Helo, Gruffydd dwi.
Dw i'n 26 mlwydd oed.
Rydw i yn wreiddiol o Y Ffôr sydd yn bentref bach yn Gogledd-Orllewin Cymru.
Rydw i yn byw yn Trevelin.

Ffaith ddifyr – Mae gen i dwy lygaid gwahanol liw.

Helo, Sinead dwi.
Dw i´n 28 mlwydd oed.
Rydw i yn wreiddiol o Bontypridd yn Ne Cymru.
Rydw i´n byw yn Esquel ar hyn o bryd.

Faith diddorol - Dwi wedi byw mewn 6 gwlad wahanol





Helo, Manon dwi.
Dwi´n 19 mlwydd oed.
Rydw i yn wreiddiol o Lanelli.
Rydw i´n byw yn Nrefelin gyda Erica, Alejandro a Bryn.

Faith diddorol - Dwi´n symud i Llundain mis Medi



# Diolch Gladys

Tro diwethaf ysgrifennais i Llais yr Andes, roedden ni´n siarad am ein profiadau yng Nghymru i fy mab a fel canlyniad chwiliais i am luniau o´r tro cyntaf bues i yna.

Llanbedr Pont Steffan...1998. Dau mis cyfan o´r dysgu iaith a diwylliant Cymreig. Ond, achos bob tro mae OND fel ymhob agwedd o fywyd mae atgofion melys a chwerw yn dod i fy meddwl. Ar un ochr roedd profiad o nabod Hen wlad fy Nhadau yn felys dros ben a chyffrous dros ben; ond ar yr ochr arall i'r geiniog roedd fy nhad yn sal iawn felly roeddwn i ´n bryderus a drist dyma´r rhan chwerw.

Pam ydw i´n dweud hwn? Achos Gladys oedd y person agosaf ar y foment hon wnaeth fy helpu i gyda'i geiriau cryf ac o'r galon. Fel arfer,tydw i ddim yn un am siarad am y sefyllfa yna ond mai'n neis i werthfawrogi a cofio pobl fel Gladys. Diolch i hi a ffrindiau eraill fel Hazel cefais yr nerth i gwblhau´r cwrs a chael amser bythgofiadwy yng Nghymru.

Yn ystod y cwrs, cafon ni sgyrsiau hir wnaeth wneud i ni ddod i adnabod ein gilydd yn dda. Ar ôl y profiad o Lanbedr dechreuon ni weithio yn galed i helpu ail-gynnau yr iaith yn Esquel. Ac o 1998 tan 2019 roedden ni yn cyd-weithio yn agos iawn, felly fe wnes i weld efo llygaid fy hun sut berson oedd hi a gallaf ddweud ei bod hi'n berson cyfrifol a ffyddlon yn ei gwaith ac fel ffrind.

Wrth gwrs roedden ni weithiau yn cael gwahaniaeth barn ond bob tro roedden ni yn fodlon i wrando a gwerthfawrogi´r syniadau newydd a gwaith y gweddill. Heddiw, rydyn ni´n codi ´r bag o´r cyfrifoldeb i dal ati gyda´r iaith a gwneud ein gorau glas. Siwr o fod byddai hi´n hapus a dymuno pob llwyddiant i ni.

Diolch am bopeth dysgaist i ni annwyl Gladys!!